# Gwybodaeth am ddileu swyddi a thaliadau ymadael cynnar

22/03/2011

**Cais am Wybodaeth.**

Cyfeiriaf at eich cais a ddaeth i law ar 22 Chwefror pan wnaethoch ofyn,

*Dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwch cystal â darparu gwybodaeth am nifer y swyddi y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu eu dileu yn ystod y blynyddoedd ariannol 2010/11 a 2011/12.*
*Byddwch cystal â darparu gwybodaeth hefyd am nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am golli eu swydd yn wirfoddol/ymadael yn gynnar.*

Strategaeth ariannol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad yn fras yw adlewyrchu canran y gostyngiadau yn yr arian sy'n dod i Gymru drwy'r bloc Cymreig. Ar gyfer 2011-12 mae'r gyllideb sydd wedi ei chymeradwyo ar gyfer Cymru yn ei gwneud yn ofynnol gwario 5.4% yn llai ar wasanaethau'r Cynulliad, sy'n cyfateb i £1.8m mewn termau real. Bydd costau untro sy'n gysylltiedig ag etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011 y tu allan i hyn. Mae'r strategaeth gyfredol ar gyfer y flwyddyn ddilynol, 2012-13, yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau gostyngiad pellach o £0.7m mewn termau real, er na chaiff y gyllideb am y flwyddyn honno ei hystyried gan y Cynulliad tan yr hydref 2011.

Mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i sicrhau gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb, ac mae rhagor o wybodaeth am y rhain i'w gweld yng nghynigion y Comisiwn ar gyfer gyllideb 2011-12 sydd ar gael yma. Un o'r camau oedd cynnig i staff y Cynulliad gynllun taliad ymadael cynnar yn wirfoddol yn ystod 2010-11 er mwyn cyflymu gostyngiad mewn costau staff cylchol. O'r 370 o staff a gyflogid gan y Comisiwn yn ystod haf 2010, gwnaeth 34 o staff gais am golli eu swydd yn wirfoddol/ymddeol yn gynnar. O'r rhain, derbyniodd 25 o staff gynigion gan adael ein cyflogaeth rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2010 gan gostio cyfanswm o tua £0.9m. Rhagwelir y bydd *arbedion blynyddol* o tua £0.7m mewn cyflogau ac argostau o ganlyniad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau cadarn ar droed i gynnig cynllun taliad ymadael cynnar yn wirfoddol eto yn 2011-12 er y caiff hyn ei adolygu'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd Comisiwn newydd y Cynulliad yn cael ei benodi ar ôl yr etholiad, a bydd am ystyried ei strategaeth ariannol ar gyfer 2012-13 yn barod i gael ei harchwilio gan y Cynulliad yn yr hydref.

Mae cynlluniau colli swydd yn wirfoddol/ymddeol yn gynnar a gynigir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu rheoli gan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Mae hwn yn gosod allan yn glir pa delerau iawndal sydd ar gael i staff sy'n colli eu swydd neu'n rhoi'r gorau i'w swydd. Yn ogystal â'r cynllun iawndal rydyn ni hefyd yn gosod meini prawf mewnol penodol, sy'n caniatáu inni nodi pa staff a fydd yn cael cyfle i adael. Mae'r meini prawf hyn yn sicrhau rhoi blaenoriaeth i risgiau parhad y busnes ac i roi gwerth am arian.

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cynllunio ar y sail o ddiswyddo gorfodol ymhlith ei weithlu.

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru